**Canllawiau Cynhyrchu Teledu:**
**Rheoli risg y Coronafeirws (COVID-19) mewn cynyrchiadau**
**(Fersiwn 8 – 4 Chwefror 2022)**

**Statws**

Cynhyrchwyd y fersiwn ddiweddaraf hon o'r canllawiau o ganlyniad i benderfyniad llywodraethau'r DU i ddileu nifer o'u cyfyngiadau wrth i risg COVID-19 newid. **Yn ôl y sefyllfa ar ddyddiad y ddogfen hon, mae Lloegr wedi cael gwared ar gyfyngiadau 'Cynllun B'.**

Mae'r canllawiau hyn yn diweddaru ac yn disodli Fersiwn 7 a gyhoeddwyd ym mis Medi 2021.

Mae'r diwydiant yn ymwybodol, wrth i gyfyngiadau llywodraethol penodol ddarfod, y bydd angen i gwmnïau cynhyrchu barhau i ymdrin â risgiau COVID-19 yn yr un modd ag unrhyw risg iechyd a diogelwch arall, er mwyn penderfynu pa fesurau sydd eu hangen i fodloni dyletswyddau diogelwch ac iechyd yn yr amgylchedd cynhyrchu.

Bydd angen i gwmnïau cynhyrchu barhau i fonitro a chadw at gyngor diweddaraf y Llywodraeth ar COVID-19. Mae'r canllawiau hyn yn seiliedig ar y defnydd ymarferol, o fewn lleoliad cynhyrchu teledu, o ganllawiau diweddaraf y llywodraeth ochr yn ochr â chyfraith iechyd a diogelwch yn y DU.

Er bod y canllawiau hyn yn nodi, lle y bo'n hysbys, amrywiannau o ran dulliau a gweithdrefnau o fewn y pedair gwlad, dylai'r rhai sy'n gweithredu yn yr Alban, Cymru, Gogledd Iwerddon, Ynysoedd y Sianel ac Ynys Manaw wirio unrhyw gyfyngiadau lleol. Bydd y rheoleiddwyr iechyd a diogelwch ym mhob gwlad yn ystyried canllawiau'r llywodraeth mewn cysylltiad â rheoli risgiau yn y gweithle wrth orfodi rheoliadau iechyd a diogelwch perthnasol. Yn yr un modd, dylai cynyrchiadau sy'n gweithio y tu allan i'r DU nodi'n ofalus y rheolau sy'n berthnasol i'r awdurdodaeth y maent yn gweithredu ynddi.

Ar gyfer cynhyrchu yn yr Alban, dylid darllen y ddogfen ganllaw hon ar y cyd â chanllawiau Llywodraeth yr Alban ar egwyddorion gwaith teg ac iechyd cyhoeddus ehangach. Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth yma.

**Diben**

Bwriedir i'r ddogfen hon fod yn fframwaith lefel uchel i ddarparu arweiniad a chymorth ar gyfer asesu a rheoli **risg COVID-19 mewn cynyrchiadau teledu**. Dylid darllen y ddogfen ar y cyd â chanllawiau y

llywodraeth ar weithio'n fwy diogel ynghylch rheoli risgiau COVID-19 mewn gweithleoedd, a chanllawiau'r HSE.

Noder. Nid yw canllawiau'r Llywodraeth ar ymbellhau cymdeithasol yn berthnasol yn gyffredinol mwyach ond er bod prosesau olrhain cysylltiadau yn parhau i fod ar waith, gall cynyrchiadau barhau i'w gwneud yn ofynnol i gadw pellter cymdeithasol fel mesur rheoli i sicrhau parhad busnes a lleihau'r risg y bydd COVID-19 yn lledaenu yn y gweithle.

Ar ddyddiad cyhoeddi'r ddogfen hon, mae'r rhan fwyaf o'r cyfyngiadau penodol cyfreithiol ar gyfer y Coronafeirws yn Lloegr wedi'u diddymu gan y llywodraeth ond mae'r sefyllfa'n amrywio ar draws y pedair gwlad. Felly, dylai busnesau adolygu gofynion cyfreithiol yn ofalus fel cyfyngiadau sy'n berthnasol i'r cenhedloedd penodol lle maent yn gweithredu. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn nhudalennau Deddfwriaeth Coronafeirws y llywodraeth.

O dan gyfraith iechyd a diogelwch, mae'n ofynnol i gwmnïau cynhyrchu gynnal asesiadau risg iechyd a diogelwch am risgiau iechyd a diogelwch perthnasol ac felly nod y ddogfen hon yw helpu cwmnïau cynhyrchu i nodi pa fesurau y gellid eu hystyried yn 'rhesymol ymarferol' yng nghyd-destun risg COVID-19.[1] Nod y ddogfen ganllaw hon yw helpu cwmnïau cynhyrchu i gydymffurfio â gofynion iechyd a diogelwch yng nghyswllt COVID-19 gan gynnwys dehongli canllawiau llywodraethol nad ydynt yn benodol i ddiwydiannau gwahanol. Gall cwmnïau cynhyrchu ddewis mynd ymhellach i ddiogelu eu staff a'u cyfranwyr, a'u hallbwn busnes os dymunant.

**Dull gweithredu**

**Dull gweithredu'r Llywodraeth**

Ar 27 Ionawr 2022, dychwelodd Lloegr i ddull gweithred "Cynllun A" (a gyhoeddwyd gan y llywodraeth yn ei Chynllun Hydref a Gaeaf 2021 ym mis Medi 2021). Yn sgil hyn ni chynghorir pobl mwyach i weithio gartref, ni fydd gorchuddion wyneb bellach yn orfodol mewn lleoliadau dan do, a bydd sefydliadau yn gallu dewis a ydynt yn gofyn am basys COVID GIG ai peidio.

Serch hynny, nid yw hyn yn golygu bod mesurau diogelu wedi diflannu'n llwyr. Bydd canllawiau Iechyd Cyhoeddus yn parhau ar waith, yn awgrymu y dylai unigolion barhau i wisgo gorchuddion wyneb mewn mannau prysur a chaeedig, lle gallech chi ddod i gysylltiad â phobl nad ydych chi fel arfer yn cwrdd â nhw. Gellir defnyddio pas COVID GIG yn wirfoddol, os dymunir hynny.

Mae dyddiadau, mesurau a graddau'r manylion ar gyfer llacio mesurau iechyd y cyhoedd yn amrywio rhwng Lloegr, yr Alban, Cymru a Gogledd Iwerddon a dylech wirio am unrhyw ofynion amrywiol gan ddibynnu ar y lleoliadau a ddefnyddir.

**Dull gweithredu'r diwydiant Cynhyrchu Teledu**

Beth bynnag fo dull llywodraeth y DU o ddiddymu cyfyngiadau COVID-19, bydd angen i fusnesau unigol yn y DU gynnal asesiad risg sy'n cynnwys risg COVID-19 ac ystyried y mesurau priodol sydd ar waith er

[1] Fel rhan o'r ddyletswydd ar bob busnes yn y DU o dan y Ddeddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith etc 1974 i gymryd **pob cam rhesymol ymarferol i sicrhau diogelwch eu gweithwyr ac eraill y mae'r busnes yn effeithio arnynt** (gweithwyr llawrydd, ymwelwyr, contractwyr ac ati) ac o dan Reoliadau Rheoli Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1999 i gynnal asesiadau risg iechyd a diogelwch 'addas a digonol'.

mwyn cyflawni eu dyletswyddau cyfreithiol o ran iechyd a diogelwch. Rhagwelir mai cyfyngedig fydd y newidiadau sy'n ofynnol ar gyfer y diwydiant ar y pwynt hwn.

Nod **Rhan 1** y canllawiau hyn yw helpu cwmnïau i ddeall dyletswyddau cyfreithiol a chymhwyso unrhyw gyfyngiadau cyfreithiol sy'n dal mewn grym, ynghyd â chanllawiau'r Llywodraeth.

Mae **Rhan 2** yn adeiladu ar y fframwaith cyfreithiol drwy ddisgrifio sut y gallai cwmnïau cynhyrchu ymdrin â'u hasesiad risg a'r mathau o fesurau rhesymol ymarferol y gallent eu defnyddio i leihau risgiau COVID-19 yn yr amgylchedd cynhyrchu teledu.

**Dyletswyddau cyffredinol**

Yn unol â fersiynau blaenorol o'r canllawiau hyn:

Bydd angen i **Gynhyrchwyr**:

- gwblhau asesiad risg addas a digonol o risgiau COVID-19 ar gyfer eu gweithgareddau,
- cofnodi sut maent yn rheoli risgiau COVID-19 sylweddol mewn dogfen asesu risg,
- ymgysylltu â'u gweithlu, unrhyw undeb llafur cydnabyddedig a/neu gynrychiolwyr cyflogeion gyda'r broses hon (gan roi gwybodaeth i gyflogeion am sut y byddant yn cadw pobl yn ddiogel, cyn dechrau cynhyrchu),
- edrych ar y 'camau blaenoriaeth' yn y Canllawiau Gweithio'n Ddiogel yng Nghyfnod COVID-19 (h.y. cwblhau asesiad risg, darparu awyru digonol, glanhau'n amlach, gofyn i bobl â symptomau COVID-19 aros gartref, galluogi pobl i gofnodi eu bod wedi cyrraedd yn eich lleoliad, cyfathrebu a hyfforddi.),
- casglu gwybodaeth i roi sicrwydd i eraill (gan gynnwys Comisiynwyr) bod asesiadau priodol wedi'u cwblhau. Dylid cyhoeddi'r wybodaeth hon ar eu gwefan lle bynnag y bo modd, yn enwedig os oes ganddynt fwy na 50 o weithwyr.

Dylai **Darlledwyr Comisiynu** geisio sicrwydd bod asesiadau risg COVID-19 addas wedi'u cynnal. Bydd angen iddynt hefyd ymgysylltu â Chynhyrchwyr ynghylch rheoli risgiau COVID-19 gan y gallai rheolaethau effeithio ar amserlenni, cynnwys a chost cynhyrchu.

**RIDDOR**

Mewn rhai amgylchiadau yn y gweithle gellir adrodd am heintiau COVID-19 o dan RIDDOR, sef Rheoliadau Adrodd am Anafiadau, Clefydau a Digwyddiadau Peryglus 2013 - dylid ystyried y gofynion hyn o fewn protocolau cynhyrchu.

**Cydraddoldeb yn y Gweithle**

Wrth gymhwyso'r canllawiau hyn, bydd angen i gyflogwyr ddeall ac ystyried amgylchiadau penodol gwahanol grwpiau o weithwyr neu unigolion. Mae'n anghyfreithlon gwahaniaethu, yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, yn erbyn unrhyw un oherwydd nodwedd warchodedig, er bod rhai eithriadau i hyn lle gellir cydbwyso rhwng y gofyniad hwn ac anghenion diogelwch, ar yr amod y gellir cyfiawnhau ymddygiad o'r fath yn wrthrychol. Gellir dod o hyd i ganllawiau'r Llywodraeth ar wahaniaethu yma. Dylai cyflogwyr gynnwys a chyfathrebu'n briodol â gweithwyr y gallai eu nodweddion gwarchodedig naill ai eu hamlygu i lefel wahanol o risg, neu lle gallai camau sy'n cael eu hystyried fod yn amhriodol neu'n heriol iddynt. Efallai y bydd angen mesurau neu addasiadau ychwanegol o ganlyniad, ac ni ddylai

unrhyw gamau a gymerir gael effaith negyddol na ellir ei chyfiawnhau ar rai grwpiau o gymharu ag eraill, er enghraifft, y rhai sydd â chyfrifoldebau gofalu neu ymrwymiadau crefyddol.

Mae gan gyflogwyr gyfrifoldebau ychwanegol tuag at weithwyr anabl a'r rhai sy'n famau newydd neu'n famau sy'n disgwyl. Rhaid gwneud addasiadau rhesymol i osgoi rhoi gweithwyr anabl o dan anfantais. Rhaid asesu risgiau iechyd a diogelwch mamau newydd neu famau sy'n disgwyl a gellir cyfeirio at gyngor COVID-19 y Llywodraeth ar gyfer gweithwyr beichiog.

**Cymhwyso'r canllawiau hyn**

Mae'r canllawiau hyn yn darparu gwybodaeth gefndir a chanllawiau asesu risg ar gyfer y diwydiant cynhyrchu teledu, gan gynnwys manylion am ofynion sylfaenol, meysydd allweddol i'w hystyried a rheolaethau. Mae canllawiau a gwybodaeth ddiweddaraf y Llywodraeth ar gyfer y DU i'w gweld ar wefan GOV.UK. Gellir dod o hyd i ganllawiau i gyflogwyr ar wneud gweithleoedd yn ddiogel rhag COVID yng nghanllawiau'r Llywodraeth ar weithio'n fwy diogel ac ar wefan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch.

I weld canllawiau penodol sy'n berthnasol i'r Alban, gweler y canllawiau a'r wybodaeth ddiweddaraf ar wefan Llywodraeth yr Alban. Ar gyfer Cymru, gweler y diweddaraf ar wefan Llywodraeth Cymru ac ar gyfer Gogledd Iwerddon gweler gwefan Llywodraeth Gogledd Iwerddon.

Mae COVID-19 yn risg iechyd a diogelwch y dylid ei hystyried o fewn y strwythur cyfrifoldeb cyffredinol sy'n sicrhau bod safonau iechyd a diogelwch priodol yn cael eu cyrraedd a'u cynnal drwy gydol y broses gynhyrchu.

Mae'r canllawiau hyn yn ymdrin ag ystod a graddfa eang yr holl fathau o gynyrchiadau teledu ym mhob genre teledu. Ceir gwybodaeth a chanllawiau penodol ar reoli'r risgiau sy'n gysylltiedig â chynhyrchu ffilmiau a rhaglenni drama o safon uchel ar gyfer y teledu yng nghanllawiau'r Comisiwn Ffilm Prydeinig (BFC) y dylid eu hystyried hefyd ar gyfer cynyrchiadau o fewn y genre hwnnw.

Cynhyrchwyd y canllawiau hyn drwy gydweithrediad arbenigwyr o bob rhan o’r diwydiant yn y maes hwn.

Roedd y canllawiau hyn yn gywir ar ddyddiad eu cyhoeddi. Wrth gyfeirio atynt, dylech sicrhau na fu newidiadau sylweddol ers eu cyhoeddi yn y gyfraith neu ganllawiau perthnasol.

## Rhan 1

**Sicrhewch eich bod yn deall unrhyw gyfyngiadau Coronafeirws cyfreithiol penodol i'r diwydiant teledu a allai fod yn berthnasol**

Tra bod unrhyw gyfyngiadau COVID-19 cyfreithiol penodol gan y llywodraeth yn parhau mewn grym yn y DU, mae'n bwysig i gwmnïau cynhyrchu ddeall sut i weithredu'r cyfyngiadau hynny yn yr amgylchedd cynhyrchu. Mae'r materion allweddol wedi'u nodi isod.

Fodd bynnag, dim ond un elfen y mae angen ei hystyried wrth gynllunio busnes ac asesu risg yw deall y defnydd o'r cyfyngiadau COVID-19 cyfreithiol penodol sy'n ymwneud â chwmni cynhyrchu. **Beth bynnag fo unrhyw gyfyngiadau llywodraethol/cyfreithiol, bydd angen i'r cwmni hefyd ystyried risg COVID-19 yn y gweithle, cynnal asesiad risg addas a digonol sy'n cynnwys risg COVID-19, a nodi mesur rheoli i reoli'r risg hon**. Mae ail ran y canllawiau hyn (tt. 7 i 18) yn rhoi rhagor o fanylion am hyn.

### 1. A allwn ni barhau i gynhyrchu rhaglenni teledu yn y DU?

Caniateir cynhyrchu rhaglenni teledu yng Nghymru, Lloegr, Gogledd Iwerddon, yr Alban a Chymru. Fodd bynnag, dylid rhoi ystyriaeth benodol i unrhyw gyfyngiadau COVID-19 lleol a allai effeithio ar ffilmio cyn i'r ffilmio ddigwydd.

Nododd pob gwlad yn y DU fap trywydd allan o'r cyfnod clo gan gynnwys dyddiadau penodol. Mae rhagor o fanylion am y cyfyngiadau lleol presennol sydd ar waith a chynlluniau pob gwlad ar gyfer llacio'r cyfyngiadau ar gael yma;

- Lloegr
- Cymru
- Yr Alban
- Gogledd Iwerddon

Dylid cynllunio ar gyfer rheoli risg COVID-19 mewn cydweithrediad agos â'ch rhwydwaith comisiynu. Os ydych yn ymgysylltu â thrydydd partïon i ddarparu gwasanaethau neu offer allweddol ar gyfer y cynhyrchiad, dylech adolygu eu cynlluniau rheoli risg ar gyfer COVID-19. Dylai hyn fod yn rhan annatod o'ch gwaith cynllunio eich hun lle gallent effeithio ar y risg gyffredinol sy'n gysylltiedig â'ch cynhyrchiad a/neu os ydych yn dibynnu arnynt i ddarparu pobl, cynhyrchion neu wasanaethau sy'n allweddol i'ch cynhyrchiad.

### 2. Digwyddiadau a chynyrchiadau gyda chynulleidfa

Gall y gyfraith berthnasol amrywio o fewn gwledydd y DU ac mae'n bwysig cadarnhau gofynion cyfreithiol ar ddyddiad y gweithgaredd cynhyrchu yn ogystal â chanllawiau perthnasol y Llywodraeth.

Mae'r canllawiau perthnasol yn Lloegr ar gyfer digwyddiadau cynhyrchu a chynulleidfaoedd i'w gweld yn y canllawiau ar gyfer Digwyddiadau ac atyniadau a chanllawiau ar gyfer busnesau a gweithleoedd mwy diogel yn yr Alban. Chwiliwch am unrhyw ganllawiau cenedlaethol neu leol.

**3. Gorchuddion wyneb**

O Ddydd Iau 27 Ionawr 2022, nid yw gorchuddion wyneb wedi'u gorfodi gan gyfraith. Dylid adolygu'r Canllawiau Llywodraeth diweddaraf perthnasol ar bryd a lle y dylid defnyddio gorchudd wyneb o hyd fel rhan o'r asesiad risg.

Os nad yw asesiad risg yn gorfodi gorchudd wyneb, dylai cynyrchiadau ystyried sut y gallant gefnogi pobl sy'n dymuno parhau i wisgo gorchudd wyneb.

**4. Teithio Domestig**

Ar gyfer teithio o fewn y pedair gwlad, dylech gyfeirio at reoliadau a chanllawiau cyfredol yr awdurdodau perthnasol gan gynnwys yma. Ar hyn o bryd gall unigolion deithio'n ddirwystr rhwng Cymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Mae rhagor o wybodaeth am deithio yn yr Alban ar gael yma. Ar gyfer Lloegr, gellir cyfeirio at ganllawiau teithio mwy diogel COVID-19 i deithwyr.

Dylai cynyrchiadau bob amser ystyried a oes cyfyngiadau lleol ar waith lle maent yn ffilmio.

**5. Teithio Rhyngwladol**

Os oes angen teithio'n rhyngwladol i/o'r DU fel rhan o'r cynhyrchiad dylech ystyried y cyfyngiadau a'r canllawiau teithio rhyngwladol diweddaraf ar gyfer gwlad y DU y mae'r unigolyn yn teithio iddi neu ohoni a chynllunio ar gyfer hyn; dylech hefyd ystyried y gallai'r cyngor hwn gael ei ddiweddaru ar fyr rybudd. Ceir rhagor o fanylion (gan gynnwys newidiadau sydd ar fin digwydd i'r rheolau) yma yn y canllawiau ar gyfer teithio dramor. Mae rhagor o wybodaeth am deithio rhyngwladol o/i'r Alban ar gael yma.

**6. Amddiffyn pobl sydd mewn mwy o berygl o COVID-19**

Mae rhai pobl mewn mwy o berygl o fynd yn ddifrifol wael os byddant yn datblygu symptomau COVID-19 a nodir yr ystyriaeth benodol sy'n ofynnol ar gyfer y grwpiau hyn yn Rhan 2. Gweler y canllawiau ar bwy sydd mewn mwy o berygl ac amddiffyn pobl sy'n agored iawn i niwed yn glinigol. Cyfrifoldeb cwmnïau cynhyrchu yw rhoi ystyriaeth ychwanegol i bobl sydd mewn mwy o berygl ac i weithwyr sy'n wynebu anawsterau iechyd meddwl a chorfforol. Parhewch i gefnogi'r gweithwyr hyn drwy drafod eu hanghenion unigol gyda hwy a'u cefnogi i gymryd unrhyw ragofalon ychwanegol yn ôl cyngor eu clinigwyr.
Ystyriwch ddarparu cymorth i weithwyr ar gyfer eu hiechyd meddwl a'u lles. Gallai hyn gynnwys cyngor neu gymorth dros y ffôn.

Rhaid i gwmnïau cynhyrchu greu amgylcheddau diogel i bawb fel y gall pob unigolyn wneud ei waith, pa bynnag addasiadau rhesymol sydd eu hangen arnynt. Mae'n bwysig nad yw cwmnïau cynhyrchu yn gwneud rhagdybiaethau am bobl sy'n agored i niwed yn glinigol neu'n anabl ond yn hytrach yn cynnal deialog agored gyda'r aelodau staff hyn, a chyfranwyr, ac yn gofyn iddynt beth sydd ei angen arnynt i wneud eu gwaith yn ddiogel ac yn effeithiol. Peidiwch â chymryd yn ganiataol, os yw person yn anabl, y bydd yn cael ei ystyried yn awtomatig fel un sy'n agored iawn i niwed yn glinigol.

## Rhan 2

**Paratowch Asesiad Risg COVID-19 eich Cynhyrchiad**
Mae Rheoliadau Rheoli Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1999 yn ei gwneud yn ofynnol i gynyrchiadau amddiffyn gweithwyr, ac eraill, rhag niwed. Mae hynny'n golygu bod yn rhaid i gwmnïau:

- nodi beth allai achosi anaf neu salwch yn y cynhyrchiad (risgiau)
- penderfynu pa mor debygol ydyw y gallai rhywun gael ei niweidio a pha mor ddifrifol (asesu risg)
- cymryd camau i ddileu'r perygl, neu os nad yw hyn yn bosibl, rheoli'r risg (y rheolaethau)

Y risg yn yr achos hwn yw'r feirws SARS-CoV-2 sy'n achosi COVID-19. Y risgiau i'w hystyried yma yw trosglwyddiad drwy aerosol a dafnau a throsglwyddiad drwy arwynebau. Mae asesu risg yn golygu nodi pwy allai gael eu niweidio, pa gamau y gellir eu cymryd yn rhesymol i reoli'r risg a sut y gellir cymhwyso hynny yn y cyd-destun cynhyrchu. Wrth ddogfennu eu hasesiad risg, efallai y bydd cynyrchiadau am gynnwys eu hasesiad o COVID-19 ym mhrif asesiad risg eu cynhyrchiad, neu fel asesiad risg ar wahân.

**Ymdrin â difrifoldeb a thebygolrwydd niwed yn Asesiad Risg COVID-19 eich Cynhyrchiad**
Wrth gynnal asesiad risg COVID-19, rhaid ystyried **effaith unrhyw niwed sy’n deillio o'r feirws** (difrifoldeb) a'r **tebygolrwydd y bydd niwed yn digwydd**. Awgrymir na fydd *difrifoldeb* y niwed sy’n deillio o COVID-19 yn newid yn sylweddol ac mae'n debygol o gael ei nodi'n gyson yn 'uchel' yn y ddogfen asesu risg oherwydd y risg o salwch difrifol neu farwolaeth.

Fodd bynnag, o ran *tebygolrwydd*, mae hyn yn newid yn ystod y pandemig wrth i lefelau trosglwyddo yn y gymuned newid (h.y. nifer y bobl heintiedig y gallai’r cast a'r criw ddod i gysylltiad â hwy mewn amgylchedd gwaith ar adeg benodol).

**Pwyntiau i'w hystyried yn Asesiad Risg COVID-19 eich Cynhyrchiad:**
Dylai cwmnïau cynhyrchu ystyried nodiadau canllaw'r Llywodraeth ar Weithio'n ddiogel yn ystod coronafeirws (COVID-19) yn ogystal â'r canllawiau hyn ar gyfer y diwydiant sy'n canolbwyntio ar y diwydiant cynhyrchu teledu.

Yng nghyd-destun cynhyrchu teledu, mae'n debygol y bydd angen i chi ystyried y pwyntiau canlynol i bennu risg ac unrhyw fesurau rheoli angenrheidiol i leihau risg COVID-19 ar y cynhyrchiad.


1. **Y bobl hynny sydd mewn mwy o berygl o niwed** **t.8**
2. **Cynyddu rhagofalon i bawb yn y gwaith** **tt.8-10**
3. **Nifer y bobl sy'n ymwneud â chynhyrchiad** **tt.10-11**
4. **Gofynion golygyddol wrth ffilmio** **tt.11-12**
5. **Awyriad** **t.12**
6. **Teithio** **tt.12-13**
7. **Lleoliadau** **t.13**
8. **Gweithgareddau Gwaith** **tt.13-14**
9. **Offer Gwaith** **t.14**
10. **Patrymau Gwaith** **t.14**
11. **Mannau Gorffwys** **t.14**
12. **Darpariaeth Feddygol** **tt.14-15**

**13. Gorchuddion wyneb a Chyfarpar Diogelu Personol (PPE)** **t.15**
**14. Profi** **t.16**
**15. Olrhain Cysylltiadau** **tt.16-17**
**16. Brechu** **t.17**
**17. Iechyd meddwl a lles** **tt.17-18**
**18. Dolen adborth** **t.18**

**1. Y bobl hynny sydd mewn mwy o berygl o niwed**

*Mae COVID-19 yn glefyd sy'n fwy tebygol o arwain at salwch difrifol (a hyd yn oed marwolaeth) mewn rhai grwpiau o bobl, yn enwedig y rhai sy'n hŷn a/neu sy'n dioddef o gyflyrau meddygol sy'n bodoli eisoes. Gweler y canllawiau ar bwy sydd mewn mwy o berygl ac amddiffyn pobl sy'n agored iawn i niwed yn glinigol.*

Yn yr Alban, defnyddir y term 'risg uchel iawn o salwch difrifol' yn hytrach nag 'agored iawn i niwed yn glinigol' a gellir dod o hyd i ganllawiau pellach yn NHS Inform.

- Os yw rhywun sy'n gweithio ar gynhyrchiad yn y categori agored iawn i niwed yn glinigol, mewn mwy o berygl o COVID-19, neu'n byw mewn cartref gyda phobl / yn gofalu am bobl sydd yn y categori agored iawn i niwed yn glinigol, yna dylai'r tîm cynhyrchu siarad â'r unigolyn dan sylw am ei sefyllfa a chytuno ar ffyrdd o reoli risg.
- Gall ffactorau eraill effeithio ar risg unigolyn, neu gael eu hystyried yn rhai sy’n effeithio arno, a dylid gofyn i bawb sy'n ymwneud â'r cynhyrchiad a ydynt yn ystyried eu hunain yn arbennig o agored i niwed neu mewn mwy o berygl o COVID-19.
- Mae canllawiau gweithio'n ddiogel Llywodraeth y DU i fusnesau yn nodi egwyddorion ar sut i ddiogelu'r rhai sydd mewn mwy o berygl gan gynnwys rhoi ystyriaeth briodol i weithio gartref. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yma.
- Dylai pobl sy'n perthyn i gategori risg uchel, neu sy'n ystyried eu bod mewn mwy o berygl, gael cynnig asesiadau risg personol, lle yr ystyrir hyn yn angenrheidiol, gyda mewnbwn gan weithiwr gofal iechyd proffesiynol priodol a/neu ymarferydd meddygol yr unigolyn ei hun.

Yn yr Alban, defnyddir y term 'risg uchel iawn o salwch difrifol' yn hytrach nag 'agored iawn i niwed yn glinigol' a gellir dod o hyd i ganllawiau pellach yn NHS Inform.

**2. Cynyddu rhagofalon i bawb yn y gwaith**

*Nid oes un mesur sy'n gallu sicrhau bod gweithle yn "COVID-19 Ddiogel". Mae diogelwch yn dibynnu ar haenau o amddiffyniad, ac mae pob un ohonynt yn lleihau'r siawns y bydd y clefyd yn cael ei drosglwyddo. Mae "hierarchaeth o reolaethau" sefydledig lle mai dileu'r perygl yw'r mesur mwyaf effeithiol; dilynir hyn gan reolaethau peirianyddol ac yna reolaethau gweinyddol, a dim ond ar ôl y mesurau hyn y defnyddir cyfarpar diogelu personol. Ar gyfer COVID-19, dylai arfer da ystyried gofod awyr agored / awyru digonol, lleihau cyswllt rhwng pobl, defnyddio gorchuddion wyneb, golchi dwylo / diheintio'n aml a glanhau arwynebau'n rheolaidd.*

- Dylai unrhyw un sydd â symptomau COVID-19 (e.e. tymheredd uchel, peswch parhaus newydd neu golled / newid i’r synnwyr blasu/arogleuo) aros gartref yn unol â gofynion y llywodraeth.

Ystyriwch y ffordd orau o atgyfnerthu'r neges hon o fewn timau cynhyrchu. Gall hyn fod ar ffurf hunanddatganiadau, gwiriadau dyddiol neu gyfnodol neu ffyrdd eraill a ystyrir yn briodol. Os yw'r broses a gyflwynir yn casglu unrhyw ddata personol, rhaid i chi sicrhau bod hyn yn unol â gofynion GDPR.

- Dylai gweithdrefnau hyrwyddo mesurau rheoli personol priodol megis:
  - Golchi neu ddiheintio dwylo'n aml, gan roi sylw arbennig i ardaloedd / gweithgareddau lle mae gwrthrychau / arwynebau'n cael eu cyffwrdd yn rheolaidd gan wahanol bobl, neu lle mae gwrthrychau'n cael eu rhannu.
  - Gwisgo gorchudd wyneb mewn mannau caeedig a phrysur.
  - Lleihau cyswllt rhwng pobl. E.e. Drwy leihau nifer y bobl y mae gan bob person gysylltiad â hwy drwy ddefnyddio 'timau sefydlog neu bartneru' neu 'rannu'n garfanau' (lle mae pob person yn gweithio gydag ychydig o bobl eraill yn unig), neu drwy ddefnyddio sgriniau / rhwystrau i wahanu pobl, neu osgoi gweithio wyneb yn wyneb.
- Gwneud yn siŵr bod rhifau cyswllt a manylion cyswllt brys pawb yn gyfredol a bod pawb yn gwbl ymwybodol o symptomau COVID-19 a phryd na ddylent fod yn y gwaith. Mae hefyd yn bwysig ystyried sut rydych yn cadw cofnodion o bwy sydd yn y gweithle a phryd; fel hyn, os bydd prawf positif gan unigolyn sydd wedi bod yn y gweithle, gallwch roi gwybod i aelodau eraill o'r tîm cynhyrchu fel y bo'n briodol.
- Dylai amserlenni a chynlluniau cynhyrchu ystyried yr amser ychwanegol sydd ei angen i weithredu'n briodol y mesurau sy'n ofynnol o dan y canllawiau hyn. Efallai y bydd angen hyfforddiant penodol ar gyfer timau cynhyrchu hefyd wrth reoli risg COVID-19 er mwyn rhoi canllawiau penodol ar gymhwyso'r rheolaethau a nodwyd a deall y risgiau. Bydd angen i'r hyfforddiant hwn fod yn addas, yn ddigonol ac yn amserol a dylid darparu manylion amdano drwy gydol y broses asesu risg.
- Ymgymryd â gweithgareddau yn yr awyr agored neu mewn mannau sydd wedi'u hawyru'n dda lle bo hynny'n bosibl.
- Glanhau arwynebau'n rheolaidd, yn enwedig arwynebau y mae pobl yn eu cyffwrdd yn rheolaidd.

**Beth i'w wneud os bydd rhywun yn dangos symptomau**

Os bydd rhywun yn dangos symptomau coronafeirws, dylai aros gartref a threfnu i gael prawf.

Os yw yn y gwaith dylai ddychwelyd adref yn syth. Os nad oes ganddo fynediad i'r rhyngrwyd, gellir trefnu prawf drwy ffonio 119 (yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon) neu 0300 303 2713 (yn yr Alban). Rhaid iddo ynysu wrth aros am ganlyniad y prawf, ac os yw canlyniad y prawf yn bositif, dilynwch ganllawiau'r llywodraeth ar ofynion ynysu a phrofi.

.

**Beth i'w wneud ar unwaith os bydd rhywun yn rhoi gwybod i chi am brawf positif**

Os bydd rhywun yn rhoi gwybod i chi ei fod wedi cael canlyniad prawf COVID-19 positif, dylech ei atal rhag dod i'r gwaith yn gorfforol, pan fo'n ofynnol yn gyfreithiol iddo aros gartref a hunanynysu. Dilynwch y canllawiau hunanynysu ar gyfer gweithleoedd.

Gellir dod o hyd i ganllawiau i unrhyw un sydd wedi bod mewn cysylltiad â pherson nad yw'n byw gydag ef sy'n profi'n bositif gyda'r coronafeirws, gan gynnwys yr hyn sy'n gyfystyr â 'chyswllt', yma ar gyfer Lloegr.

Gellir dod o hyd i ganllawiau iechyd y cyhoedd ar gyfer profi a hunanynysu yn yr Alban yma. Ar gyfer Cymru a Gogledd Iwerddon dilynwch y priod ganllawiau cenedlaethol ar gyfer hunanynysu. Ar adeg cyhoeddi'r canllawiau hyn, mae rhai gwahaniaethau i eithriadau yn genedlaethol.

**Pa gofnodion ddylech chi eu cadw?**

Dylech sicrhau bod gennych system i nodi a chofnodi achosion lle mae unigolion wedi dod i gysylltiad agos ag eraill yn ystod gweithgarwch yn y gweithle. Er mwyn cefnogi'r broses o olrhain cysylltiadau agos yn gywir ac yn effeithiol, efallai y byddai'n ddoeth i chi ofyn i unrhyw aelod cynhyrchu drafod gyda chi'r wybodaeth briodol i'r rhai sy'n olrhain weithredu arni a pha wybodaeth y dylid ei rhoi i'r cyrff olrhain perthnasol. Dylech hefyd ystyried unrhyw faterion preifatrwydd data posibl a allai fod yn berthnasol.

**Pa gamau eraill ddylech chi eu cymryd?**

Dylech sicrhau y gofynnir i unrhyw un sy'n profi'n bositif ddisgrifio pob sefyllfa o fewn y 48 awr cyn i'r prawf gael ei gymryd / cyn i'r symptomau ddechrau lle mae wedi dod i gysylltiad agos gyda phobl eraill ar y cynhyrchiad. Dylid gwneud hyn mewn modd agored a heb fwrw bai ar unrhyw un, fel y gellir darparu gwybodaeth gywir i'r awdurdodau ac fel y gellir diwygio neu gryfhau mesurau rheoli os oes angen.

**Beth ddylech chi ei wneud os oes sawl achos yn y gweithle?**

Os bydd nifer o achosion yn y gweithle dylech sicrhau eich bod yn dilyn y canllawiau lleol diweddaraf yn Lloegr, yr Alban, Cymru a Gogledd Iwerddon. Gallai hyn olygu bod eich tîm iechyd cyhoeddus lleol yn cysylltu â chi neu y dylech chi gysylltu ag ef.

Gellir dod o hyd i ragor o ganllawiau iechyd cyhoeddus ar gyfer yr Alban yma.

**3. Nifer y bobl sy'n ymwneud â chynhyrchiad / cyswllt pobl ar y safle**

*Mae hyn yn debygol o fod yn fesur rheoli hanfodol wrth reoli'r risg a dylid ei ystyried cyn asesiad risg manylach. Yr ystyriaethau allweddol fyddai;*

- Lleihau'r gweithwyr sydd eu hangen ar y safle i gwblhau'r gweithgaredd gwaith
- Gwneud y mwyaf o dechnoleg i alluogi i rolau a gweithgareddau gael eu gwneud gartref ac o bell lle bynnag y bo modd
- Lleihau nifer y bobl y mae gweithwyr yn dod i gysylltiad â nhw. *Nid yw canllawiau'r Llywodraeth ar ymbellhau cymdeithasol yn berthnasol yn gyffredinol mwyach ac nid oes cyfyngiadau ar gyswllt cymdeithasol rhwng pobl o wahanol aelwydydd. Fodd bynnag, gall COVID-19 ledaenu o hyd drwy gyswllt cymdeithasol.*

Mae enghreifftiau o ffyrdd o wneud hyn yn cynnwys:

- Lleihau nifer y bobl y mae gan bob person gysylltiad â hwy drwy ddefnyddio 'timau sefydlog neu bartneru' neu 'rannu'n garfanau' (lle mae pob person yn gweithio gydag ychydig o bobl eraill yn unig)

- Adolygu cynlluniau setiau, defnyddio sgriniau neu rwystrau i wahanu pobl oddi wrth ei gilydd, neu ddefnyddio dulliau gweithio cefn wrth gefn neu ochr yn ochr, yn hytrach na gweithio wyneb yn wyneb (nid yw sgriniau ond yn debygol o fod yn fuddiol os cânt eu gosod rhwng pobl a fydd yn dod i gysylltiad agos â'i gilydd)
- Gall cynyrchiadau barhau i ddewis dilyn mesurau cadw pellter cymdeithasol, megis bwlch o 2m rhwng unigolion, yn ôl yr hyn a bennir gan eu hasesiad risg

**Ystyriaethau eraill**
Dylid ystyried bod unrhyw rolau sy'n allweddol i sicrhau diogelwch yn ystod gweithgaredd penodol â risg uwch ar y set yn hanfodol o ran cynnal y gweithgaredd hwnnw; dylid nodi'r rhain yn yr asesiadau risg ar gyfer y gweithgareddau risg uwch (fel styntiau neu SFX).

Efallai y bydd gan rai unigolion ofynion penodol sy'n golygu bod angen pobl ychwanegol ar y safle – e.e. efallai y bydd angen cynorthwyydd neu gyfieithydd iaith arwyddion ar bobl anabl neu fyddar er mwyn cyflawni eu rôl.

Ar gyfer cynyrchiadau sy'n parhau i gadw pellter cymdeithasol ar hyn o bryd, oherwydd yr amgylchiadau unigryw o ran rheoli risg COVID-19 mewn cynyrchiadau a chymhlethdod cadw pellter cymdeithasol, wrth ystyried y terfynau i bobl a ganiateir ar setiau, efallai y bydd dal angen i chi ganiatáu i rieni neu warcheidwaid fynd gyda phlant. Gall rhieni gynorthwyo gydag agweddau ar baratoi eu plant, sy'n gallu cynnwys gwallt, colur a dillad - efallai gyda hyfforddiant pan fo angen. Dim ond wrth liniaru risgiau COVID-19 y caniateir defnyddio rhieni yn y rôl hon; ffefrir defnyddio gwarchodwyr (chaperones), ond dylai cynyrchiadau ddefnyddio eu disgresiwn ar hyn wrth weithredu cyfyngiadau diogelwch COVID-19. Os *yw* rhieni'n ymgymryd â'r rôl hon, rhaid i'r gwaith cynllunio diogelwch fod yn rhan o'r broses rheoli risg a byddai fel arfer yn cynnwys darparu briff iddynt fel y byddai'n digwydd gyda gwarchodwyr.

Mae grwpiau penodol o bobl y gallai fod angen mynediad arnynt i set gan gynnwys cynrychiolwyr undebau llafur ac ymweliadau hanfodol gan asiantiaid neu gynghorwyr proffesiynol. Dylai ymweliadau ddigwydd yn unol â'r mesurau diogelwch a gyflwynwyd ar gyfer y lleoliad.

Ni ddylai unrhyw ostyngiad cyffredinol mewn niferoedd pobl gael effaith negyddol ar agweddau eraill ar y cynhyrchiad, nad ydynt yn ymwneud â'r Coronafeirws (COVID-19).

**4. Gofynion golygyddol wrth ffilmio**
*Un ystyriaeth allweddol yw sut y gellir bodloni gofynion creadigol a golygyddol y cynhyrchiad a dylid cytuno ar fesurau gyda Rhwydweithiau Comisiynu o fewn paramedrau'r cyfyngiadau presennol. Gall enghreifftiau o fesurau gynnwys:*
- Newidiadau i'r sgript a golygfeydd er mwyn ystyried y gostyngiad yng nghysylltiad gweithwyr (boed hynny yn sgil ymbellhau cymdeithasol neu fel arall – a bennir gan asesiad risg y cynhyrchiad).
- Newidiadau i'r set i ystyried y gostyngiad yng nghysylltiad gweithwyr.
- Defnyddio 'sgriniau gwyrdd' ac 'i lawr y llinell' i gefnogi lleihau'r niferoedd ar y cynhyrchiad.
- Dylid darparu sgriptiau cyn gynted â phosibl i gefnogi cynllunio.

- Efallai y bydd angen cyflwyno cyfarwyddwyr a rolau perthnasol eraill yn gynharach yn y gwaith cynllunio a'r gwaith cynhyrchu er mwyn sefydlu'r hyn sy'n ofynnol i gyflawni'r gwaith cynhyrchu o fewn y cyfyngiadau o ran rheoli risg COVID-19.

**Ystyriaethau eraill**

Pan fo darpariaethau a gyflwynir i reoli risgiau COVID-19 yn arwain at ofynion ychwanegol yn cael eu rhoi ar y cast y tu allan i'w cyfnod gweithio, dylid trafod y rhain yn llawn ymlaen llaw.

Pan fo plant yn rhan o gynhyrchiad, cofiwch fod yr holl fesurau diogelu plant perthnasol yn dal i fod yn berthnasol a bod modd gorfodi gofynion trwyddedu perfformiad o hyd.

Os ydych yn ffilmio o fewn cartref gyda phlant yn bresennol, dylech ystyried risgiau COVID-19 ac ystyriaethau risg arferol sy'n gysylltiedig â gweithio gyda phlant (gan gynnwys diogelu) fel rhan o'ch proses asesu.

## 5. Awyru

*Mae lledaeniad drwy'r awyr yn un o'r prif ffyrdd y mae'r feirws SARS-CoV-2 sy'n achosi COVID-19 yn trosglwyddo, ac mae cynyddu faint o aer ffres y mae pobl yn ei anadlu yn fesur rheoli hanfodol.*

- Lle bo'n ymarferol, dylid cynnal gweithgarwch ffilmio a gweithgarwch arall sy'n gysylltiedig â chynhyrchu yn yr awyr agored. Mae hyn hyd yn oed yn bwysicach ar gyfer gweithgarwch risg uwch fel ymarfer corff neu pan fydd pobl yn canu neu'n codi eu lleisiau.
- Lle bo gweithgarwch dan do yn hanfodol, dylai'r gofod fod mor fawr â phosibl a dylai gael ei awyru'n effeithiol cyn, yn ystod ac ar ôl i bobl fod yn bresennol.
- Gall awyru fod yn naturiol (agor ffenestri, drysau a fentiau), mecanyddol (ffaniau a dwythellau) neu gyfuniad o'r ddau.
- Darparwch gyflenwad da o awyr iach a cheisiwch osgoi ardaloedd dan do lle mae cyflenwad awyr iach yn anodd (e.e. ystafelloedd cefn mewnol).
- Lle defnyddir awyru mecanyddol, sicrhewch fod systemau'n cael eu gosod i ddarparu cymaint â phosib o awyr iach a lleihau faint o aer sy'n ailgylchredeg. Gwnewch y mwyaf o faint o awyr iach y mae'r system yn ei dynnu i mewn a darparwch awyr iach ychwanegol lle bo angen.
- Nodwch unrhyw fannau sydd wedi'u hawyru'n wael fel rhan o asesiad risg y cynhyrchiad a chymerwch gamau i wella llif awyr iach yn yr ardaloedd hyn. Mae'r HSE yn rhoi arweiniad ar sut i adnabod gofod sydd wedi'i awyru'n wael. Mae hefyd yn esbonio'r camau y gallwch eu cymryd i wella awyru yn y mannau hyn. Darllenwch y cyngor ar aerdymheru ac awyru. Lle na ellir gwella awyriad mewn gofod, gall fod yn fwy diogel cyfyngu ar yr amser a dreulir yn y gofod a nifer y bobl sydd yno, neu roi'r gorau i'w ddefnyddio'n gyfan gwbl.
- Gellir defnyddio teclynnau monitro carbon deuocsid ($CO_2$) i ganfod a yw $CO_2$ yn cronni mewn ardal. Mae pobl yn rhyddhau $CO_2$ wrth iddynt anadlu allan ac felly byddai hyn yn helpu i ganfod a oes angen gwella'r system awyru. Dilynwch ganllawiau HSE ar fonitro CO2.
- I gael rhagor o arweiniad ar awyru dan do a newidiadau i'r aer:
  - GOV UK: Working safely during COVID-19
  - GOV UK: Ventilation of indoor spaces to stop the spread of COVID-19
  - HSE: Ventilation and air conditioning during the COVID-19 pandemic
  - Mae canllawiau awyru manwl ar gyfer gweithleoedd ac adeiladau cyhoeddus yn ystod y pandemig ar gael gan Sefydliad Siartredig y Peirianwyr Gwasanaethau Adeiladu (CIBSE).

    - Gellir dod o hyd i ganllawiau awyru Llywodraeth yr Alban yma.

## 6. Teithio

*Dilynwch ganllawiau presennol y llywodraeth ar unrhyw gyfyngiadau teithio lleol neu ryngwladol (Gweler Rhan 1 am ragor o wybodaeth). Yn ychwanegol at asesiad risg y cynhyrchiad, gall ystyriaethau gynnwys:*

- Dewisiadau amgen digidol neu dechnegol sy'n dileu (fel pwynt cyntaf) neu os nad yw hynny'n rhesymol bosibl, yn lleihau'r angen am deithio y tu allan i'r cartref lle bo angen
- Defnyddio criw a chyfranwyr lleol i helpu i leihau'r angen am deithio lle bo angen
- Teithio mewn cerbydau preifat ar wahân, neu le y defnyddir cerbydau amldeithiwr / rhannu cerbydau, ystyried safleoedd eistedd, awyru cerbydau a gorchuddion wyneb i leihau'r risgiau o drosglwyddo. Hefyd, ystyried teithio mewn timau sefydlog ac ystyried effaith achos COVID-19 positif.
- Os bydd mwy o bobl yn gyrru i'r gweithle nag arfer, ystyried a oes gennych gyfleusterau parcio priodol ar gael.
- Os oes angen trafnidiaeth gyhoeddus, ystyried teithio ar adegau tawel, defnyddio gorsafoedd ac arosfannau tawelach a cheisio peidio cyflwyno newidiadau. Dilynwch ganllawiau iechyd cyhoeddus cyfredol (teithio mwy diogel ar drafnidiaeth gyhoeddus). Gellir cael rhagor o wybodaeth am deithio yn yr Alban yma.
- P’un a yw gorchuddion wyneb yn orfodol neu’n cael eu hargymell ar drafnidiaeth gyhoeddus neu gludiant a rennir (gan gynnwys tacsis a gweithredwyr rhannu teithiau), yn dibynnu ar y wlad, a lle mae rheolau lleol yn nodi eu bod yn amod teithio. Cyfeiriwch at ganllawiau cenedlaethol ar gyfer Cymru, yr Alban, Lloegr a Gogledd Iwerddon ynghylch lle mae'n ofynnol gwisgo gorchuddion wyneb.
- Golchi neu ddiheintio dwylo cyn ac ar ôl defnyddio unrhyw drafnidiaeth gyhoeddus, gan gynnwys tacsi neu gerbyd a rennir.
- Glanhau pwyntiau cyffwrdd ar gerbydau.

## 7. Lleoliadau

*Ystyriwch gapasiti ffisegol y gofod os ydych yn cadw pellter cymdeithasol / yn lleihau cysylltiad (yn dibynnu ar eich asesiad risg) rhwng staff cynhyrchu / cyfranwyr / ymwelwyr / aelodau o'r gynulleidfa. Ystyriwch hefyd ddarpariaeth cyfleusterau hylendid ac awyriad. Ystyriwch y risgiau allweddol y gallech fod yn eu cyflwyno i eraill sydd eisoes yn gweithio yn y gofod yma a glanhewch y safle cyn ac yn ystod y rheolaethau gweithio. Mae ystyriaethau'n debygol o gynnwys:*

- Pynciau perthnasol mewn adrannau ar wahân gan gynnwys awyru, teithio a gwisgo gorchuddion wyneb.
- Defnyddio'r gofod stiwdio sydd ar gael mewn modd sy'n golygu y gallwch leihau'r amser rhwng cynyrchiadau ac osgoi'r angen i symud offer yn ddiangen.
- Nodi llwybrau ac ardaloedd i gynorthwyo o ran rheoli pellter cymdeithasol os yw eich asesiad risg yn gofyn am hyn.
- Sicrhau digon o le i wahanu carfanau lle rydych yn defnyddio'r dull Carfan Cyswllt Agos a nodir yn **Atodiad A.**
- Arferion a gofynion glanhau effeithiol. Gall hyn gynnwys ychwanegu at sesiynau glanhau cyffredinol dyddiol gyda sesiynau glanhau rhwng adegau gweithio mewn ardaloedd a ddefnyddir yn aml a darparu deunyddiau i ddefnyddwyr ar gyfer glanhau pwyntiau cyffwrdd.

- Darparu cyfleusterau golchi dwylo / glanweithio digonol a sicrhau eu bod ar gael yn rhwydd i dimau. Dylid annog golchi dwylo / diheintio dwylo'n rheolaidd drwy arwyddion clir.
- Dylid glanhau ardaloedd bwyd a diod yn rheolaidd gan ganolbwyntio ar bwyntiau cyffwrdd.

**8. Gweithgareddau Gwaith**

*Ystyriwch y gweithgareddau y bydd angen i bobl eu cyflawni mewn gwahanol rolau ar y cynhyrchiad, ac a ellir addasu neu newid y rhain i leihau risg. Mae ystyriaethau'n debygol o gynnwys:*

- Sut y gellir cynllunio gweithgareddau i leihau cyswllt rhwng aelodau'r tîm cynhyrchu (neu sicrhau pellter cymdeithasol lle mae asesiad risg y cynhyrchiad yn gofyn amdano), neu ddefnyddio rhwystrau ffisegol (fel sgriniau gwydr).
- Lle bo angen cyswllt agos, ystyriwch y defnydd o Swigod neu Garfanau Cyswllt Agos yn unol ag Atodiad A.
- Adolygu ac addasu dyluniad y set i leihau amser rigio ac osgoi'r angen i weithio'n agos cyn belled ag y bo modd.
- Adolygu gwallt a cholur a sicrhau bod canllawiau'r llywodraeth ar wasanaethau cyswllt agos yn cael eu dilyn. Mae rhagor o wybodaeth am wasanaethau cyswllt agos yn yr Alban ar gael yma. Ystyried effaith achos COVID-19 positif.
- Darparu hyfforddiant sefydlu a gloywi priodol i bersonél ar risgiau COVID-19 a'r mesurau rheoli a nodwyd yn eich asesiad risg.
- Nodi person enwebedig i fonitro cydymffurfiaeth â'ch asesiad risg COVID-19 ar y set a sicrhau bod ganddo ddigon o awdurdod i gymryd unrhyw gamau priodol.

**9. Offer Gwaith**

*Mae offer gwaith yn allweddol i gynhyrchu rhaglenni teledu, o gamerâu a phensetiau i ystafelloedd golygu. Dylid mynd i'r afael â hylendid da a rheoli problemau posibl gyda phwyntiau cyffwrdd. Mae ystyriaethau'n debygol o gynnwys:*

- Lle y bo'n ymarferol, darparu offer gwaith at ddefnydd un person yn unig.
- Lle bo angen rhannu offer, sicrhau bod darpariaeth yn cael ei gwneud i ddefnyddwyr ddiheintio offer cyn ac ar ôl ei ddefnyddio.

**10. Patrymau Gwaith**

*Gallai rhagofalon ychwanegol i reoli risg COVID-19 arwain at fwy o baratoi a mwy o amser cynhyrchu cyffredinol. Bydd pwysau o ran terfynau amser a themtasiwn rhagweladwy i ymestyn yr 'oriau camera' a'r diwrnod gwaith i gwblhau'r gwaith; rhaid ystyried a mynd i'r afael â hyn o fewn y diwylliant cynhyrchu o sesiynau briffio cychwynnol i atgyfnerthu negeseuon allweddol o ddydd i ddydd. Er y bydd llawer yn awyddus i ddychwelyd i'r gwaith, bydd llawer o rai eraill yn bryderus ynghylch risgiau iechyd COVID-19. Dylid ystyried effaith hyn ar dimau cynhyrchu yn yr amserlenni gwaith a allai effeithio ar hyd y diwrnod gwaith a ystyrir yn briodol ar hyn o bryd. Gall patrymau gwaith hefyd eich galluogi i gael grwpiau bach (carfanau) o bobl nad ydynt yn dod i gysylltiad â grwpiau eraill a dylai hyn fod yn ystyriaeth gynllunio. Mae ystyriaethau'n debygol o gynnwys:*

- Anelu at gadw timau o weithwyr yn fach, lleihau cymysgu lle bo hynny'n ymarferol a chadw timau gyda'i gilydd fel carfanau.
- Amserlennu gwaith i leihau'r gorgyffwrdd rhwng timau cyn belled ag y bo'n rhesymol ymarferol.

**11. Mannau Gorffwys**

*Mae ardaloedd gorffwys yn bwysig iawn ond efallai y bydd angen rhywfaint o ad-drefnu a chynllunio ar gyfer seibiannau i sicrhau bod mannau gorffwys mor ddiogel â phosibl. Mae ystyriaethau'n debygol o gynnwys:*

- Defnyddio amserlennu a chyfyngu ar niferoedd i helpu i leihau cysylltiadau yn y gweithle ac osgoi cael gormod o bobl mewn un lle.
- Dilyn canllawiau'r llywodraeth ar wasanaethau bwyd a diod gan gynnwys canllawiau'r Llywodraeth ar gyfer bwytai, bariau, tafarndai a siopau tecawê. Ar gyfer yr Alban, gweler canllawiau'r sector bwyd yma.
- Cymryd camau i sicrhau nad yw ardaloedd y toiledau'n gorlenwi.

## 12. Darpariaeth Feddygol

*Ystyriwch fod y gwasanaethau brys dan bwysau mawr felly efallai na fyddant yn gallu ymateb cyn gynted â phosibl; ochr yn ochr â hyn, mae'r Coronafeirws hwn (COVID-19) yn peri risg bosibl i swyddogion cymorth cyntaf. Sicrhewch fod eich darpariaeth cymorth cyntaf yn ddigonol a bod swyddogion cymorth cyntaf yn gyfarwydd â chanllawiau cyfredol y llywodraeth. Mae ystyriaethau'n debygol o gynnwys:*

- Sicrhau bod eich darpariaeth cymorth cyntaf yn ddigonol a bod swyddogion cymorth cyntaf yn gyfarwydd â chanllawiau cyfredol y llywodraeth.
- Digonolrwydd y ddarpariaeth gofal iechyd ar y set, a'r ddibyniaeth ar wasanaethau lleol, yn dibynnu ar lefel y risg.
- Adolygu amserlenni ar gyfer golygfeydd risg uwch, megis styntiau ac SFX, yng nghyd-destun baich COVID ar gyfleusterau gofal iechyd lleol. Efallai y bydd angen lleihau'r golygfeydd hyn / lleihau'r niferoedd sy'n cymryd rhan, neu eu gohirio, yn dibynnu ar lefel y risg.

## 13. Gorchuddion wyneb a Chyfarpar Diogelu Personol (PPE)

*Dylid parhau i ddefnyddio PPE mewn gweithgaredd gwaith lle'r oedd eisoes yn cael ei ddefnyddio i ddiogelu rhag risgiau nad ydynt yn ymwneud â COVID; dylid pennu hyn drwy asesiad risg. Ni ddylid annog y defnydd rhagofalus o PPE i ddiogelu rhag COVID-19 oni bai eich bod mewn lleoliad clinigol neu'n ymateb i achos posibl neu achos a gadarnhawyd o COVID-19.*

*Mae gorchuddion wyneb yn lleihau trosglwyddiad drwy'r aer drwy hidlo'r rhan fwyaf o'r dafnau a rhywfaint o'r aerosol yn anadl y gwisgwr, gan leihau'r siawns y gall drosglwyddo'r feirws. Maent hefyd yn darparu amddiffyniad cyfyngedig i'r gwisgwr, yn rhannol drwy hidlo ac yn rhannol drwy gynyddu lefelau lleithder o fewn y parth anadlu. Mae ystyriaethau'n debygol o gynnwys:*

- Efallai y bydd rhai mannau lle mae'n rhaid i chi wisgo gorchudd wyneb yn ôl y gyfraith. Mae rheolau'n amrywio ar draws y DU a cheir manylion amdanynt ar y gwefannau perthnasol ar gyfer Lloegr, Gogledd Iwerddon, yr Alban a Chymru. Dylai timau cynhyrchu fod yn ymwybodol nad yw rhai unigolion yn gallu gwisgo gorchuddion wyneb oherwydd eu cyflwr meddygol neu anabledd a gallant fod wedi eu heithrio yn ôl y gyfraith (gan gynnwys plant, yn dibynnu ar eu hoedran). Byddwch yn ymwybodol y gall gorchuddion wyneb ei gwneud hi'n anos cyfathrebu â phobl sy'n dibynnu ar ddarllen gwefusau, mynegiant yr wyneb a sain glir.
- Mae gwisgo gorchuddion wyneb yn arfer da, yn enwedig pan fydd aerosolau halogedig yn gallu "hongian" yn yr atmosffer. Mae hyn yn arbennig o bwysig mewn mannau caeedig a phrysur.
- Ystyried annog gweithwyr i ddefnyddio gorchuddion wyneb (er enghraifft drwy arwyddion), yn enwedig mewn ardaloedd dan do lle gallant ddod i gysylltiad â phobl nad ydynt fel arfer yn dod ar eu traws. Lle mae'n ofynnol i bobl wisgo gorchudd wyneb neu lle maent yn dewis

gwneud hynny, cefnogwch nhw drwy roi cyngor ar sut i ddefnyddio un yn ddiogel (Advising your workers – Llywodraeth y DU).

- Dylai gorchuddion wyneb orchuddio'r trwyn a'r geg ac maent yn fwyaf effeithiol pan fo ganddynt dair haen.
- Nid yw feisorau wyneb yn ddewis amgen priodol yn lle gorchuddion wyneb gan nad ydynt yn gweithredu fel hidlydd. Efallai y byddant yn briodol yn ychwanegol at orchuddion wyneb mewn rhai amgylchiadau.
- Bydd sicrhau PPE priodol yn y gweithle yn cael ei bennu drwy asesiad risg ac unrhyw ganllawiau eraill gan y llywodraeth a dylid ei ystyried yn angenrheidiol i ategu mesurau rheoli eraill a roddir ar waith yn ystod cynhyrchiad.
- Unrhyw weithgareddau neu amgylcheddau gwaith lle efallai y byddwch am orfodi'r defnydd o orchuddion wyneb yn y gweithle, yn dibynnu ar lefel y risg.

**Ystyriaethau eraill**

Lle nad yw pobl yn gallu gwisgo gorchuddion wyneb, a bod ganddynt bryderon, dylai timau cynhyrchu drafod ffyrdd eraill o reoli risg gyda'r unigolion.

Mae materion penodol yn codi ar gyfer pobl sydd â nam ar eu clyw ac sy'n dibynnu ar ddarllen gwefusau. Dylai timau cynhyrchu archwilio opsiynau amgen yn lle gorchuddion wyneb safonol gyda'r person dan sylw ac efallai y bydd angen iddynt ofyn am gyngor arbenigol.

## 14. Profi

*Ni all profion ar gyfer COVID-19 ddileu'r risg o drosglwyddiad feirysol. Mae o werth i awdurdodau iechyd cyhoeddus ac efallai y bydd cynyrchiadau am gefnogi'r ymdrech genedlaethol drwy gynnal profion yn y gweithle. Fodd bynnag, mae profion yn gymhleth, yn feichus ac yn gostus – dylai cynyrchiadau fod yn gwbl glir ynglŷn â'r hyn y maent yn ceisio'i gyflawni cyn cychwyn ar raglen.*

*Yng nghyd-destun cyflogaeth mae tri rheswm a allai gyfiawnhau profi:*

1. *Profi i ddiogelu – rhan o raglen rheoli risg gynhwysfawr*
2. *Profi i alluogi - galluogi gweithgareddau a fyddai fel arall yn cael eu hystyried yn amhriodol pan fo COVID-19 yn cylchredeg.*
3. *Profi i ryddhau – byrhau cyfnodau o gwarantin neu hunanynysu gyda bendith swyddogol.*

- Dylid gofyn i bobl sydd â symptomau COVID-19 neu gysylltiadau rhywun sydd wedi profi'n bositif fynd adref a defnyddio cynllun rhad ac am ddim y Llywodraeth i drefnu prawf.
- Gall pobl nad oes ganddynt symptomau archebu pecynnau o brofion am ddim ar gyfer profion yn y cartref os dymunant.
- Dylai cynyrchiadau sy'n bwriadu cynnwys profion fel rhan o'u system rheoli diogelwch gyffredinol gymryd cyngor arbenigol ynghylch a ddylid gwneud hynny a sut.
- Dylai cynyrchiadau sy'n ceisio sefydlu Carfanau Cyswllt Agos i gefnogi gweithgareddau penodol gyfeirio at **Atodiad A.**
- Gellir dod o hyd i reolau ar brofion sy'n ymwneud â theithio a'r gofynion cwarantin neu hunanynysu cysylltiedig yma.

Mae rhagor o wybodaeth am brofion yn y gweithle yn yr Alban ar gael yma.

**Ystyriaethau eraill**

Dylai sefydlu'r angen am brofion COVID-19 fod y cam cyntaf bob amser – dim ond wedyn y dylid ystyried manylion megis strategaethau samplu a'r math o brawf i'w ddefnyddio.

Mae sefydlu trefn brofi effeithiol yn gymhleth a dylid ceisio canllawiau arbenigol.

Mae canlyniadau positif a negyddol anghywir yn achosi anawsterau i gynyrchiadau ac mae'r tebygolrwydd y byddant yn digwydd (gwerthoedd rhagfynegol positif a negyddol) yn amrywio gyda lefelau trosglwyddo cymunedol.

Os gwneir penderfyniad i brofi, gallai'r rhestr o ddarparwyr preifat sydd wedi hunanddatgan eu bod yn bodloni safonau gofynnol y Llywodraeth ar gyfer profion cyffredinol a / neu brofi i ryddhau fod o gymorth.

Mae ystyriaeth fanwl o'r materion sy'n ymwneud â phrofi ar gyfer SARS-CoV-2 y tu hwnt i gwmpas y ddogfen hon ac mae canllawiau llawnach ar gael mewn adolygiad gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch ynghylch y pwnc.

**15. Olrhain cysylltiadau**

*Mae Llywodraethau Cenedlaethol a Gwasanaethau Iechyd wedi sefydlu systemau i olrhain pobl y credir eu bod wedi bod mewn cysylltiad â rhywun sy'n datblygu COVID-19. Er bod y rhan fwyaf o gysylltiadau'n debygol o ddigwydd i ffwrdd o'r gwaith, dylai cynyrchiadau gadw cofnodion sy'n ymwneud â phobl sydd wedi bod mewn cysylltiad agos ar y set, boed hynny yn fwriadol neu'n anfwriadol. Bydd cofnodion o'r fath yn cynorthwyo'r awdurdodau ac o bosibl yn cyfyngu ar yr aflonyddwch a achosir gan y gofyniad i'r cast neu'r criw orfod hunanynysu'n ddiangen.*

Wrth ystyried y cofnod y dylid ei gadw, dylai cwmnïau feddwl am:

- Gofnodion yn ymwneud â phobl sydd wedi bod mewn cyswllt agos ag eraill wrth weithio ar gynhyrchiad, gan gynnwys yr amseroedd a dreuliwyd mewn cysylltiad;
- Yr angen i fodloni unrhyw ofynion diogelu data.
- Y ffaith na fydd gwisgo gorchuddion wyneb a masgiau yn osgoi'r angen i gadw cofnodion o gysylltiadau.
- Darparu canllawiau i dimau cynhyrchu, i'w galluogi i ymateb yn briodol i achosion o COVID-19 yn y gweithle. Cynlluniau ar gyfer cysylltu â thîm iechyd cyhoeddus eich awdurdod lleol os ydych wedi gweld nifer o achosion **ac** eich bod angen arweiniad pellach (gan gynnwys enwebu un pwynt cyswllt o'ch busnes i gysylltu ag iechyd y cyhoedd os oes angen).
- Mae gofynion cadw cofnodion ychwanegol yn berthnasol i gynyrchiadau o dan rai amgylchiadau, megis lle mae cynulleidfa, a dylech gyfeirio at ganllawiau am Ddigwyddiadau ac atyniadau i gael rhagor o wybodaeth.

**16. Brechu**

*Mae brechu rhag y feirws sy'n achosi COVID-19 yn fesur iechyd cyhoeddus pwysig wrth reoli'r pandemig. Felly, efallai y bydd cynyrchiadau am annog pobl i fanteisio ar gynigion i gael eu brechu*

*pan fyddant yn eu derbyn. Mae brechu'n lleihau'r siawns, ond nid yw'n dileu'r risg, y bydd pobl yn datblygu COVID-19, yn mynd yn ddifrifol wael ac yn trosglwyddo'r feirws.*

- Mae sgileffeithiau difrifol yn brin ond mae sgileffeithiau ysgafn yn gyffredin a dylai cynyrchiadau ystyried wrth gynllunio na fydd pobl efallai'n teimlo'n dda y diwrnod ar ôl cael eu brechu.
- Gall statws brechu effeithio ar rywfaint o deithio rhyngwladol ond dylai cynyrchiadau sicrhau bod unrhyw gofnodion a gedwir gan y cwmni cynhyrchu yn bodloni gofynion diogelu data.
- Mae statws brechu yn berthnasol os ydych wedi bod yn gyswllt agos achos COVID-19 positif. Dilynwch ganllawiau cenedlaethol ar gyfer Lloegr, yr Alban, Cymru a Gogledd Iwerddon.

**Ystyriaethau eraill**

Mae brechu yn y DU yn gyfan gwbl o fewn y GIG ac nid yw darpariaeth breifat yn opsiwn ar hyn o bryd. Dylai cynyrchiadau fod yn ymwybodol o ba bryd y mae'n debygol y gwahoddir cast a chriw i gael eu brechu a'r effaith bosibl ar amserlennu, yn enwedig os ydynt yn ffilmio dramor (gan gynnwys ail ddosau).

### 17. Iechyd meddwl a lles

*Mae pandemig COVID-19 wedi cael effaith sylweddol ar iechyd meddwl a lles pobl. Mae llawer mwy o bobl nag arfer wedi profi profedigaeth yn ogystal â dioddef o unigedd a chaledi ariannol eu hunain. Yn ogystal ag oedolion, mae'n bosibl bod plant a phobl ifanc wedi profi trawma, pryder a mwy o amlygiad i niwed o ganlyniad i bandemig COVID-19. Mae bylchau mewn cyflogaeth, gan gynnwys ffyrlo, wedi bod yn fwy nag arfer a bydd llawer o bobl yn awyddus i ddychwelyd i'r gwaith. Felly, dylid ystyried lles ac iechyd meddwl fel rhan o'r asesiad risg ar gyfer y cynhyrchiad. Gall ystyriaethau gynnwys:*

- Lle bo cyfyngiadau ar waith, effaith y ffordd addasedig / gyfyngedig o weithio ar iechyd meddwl, yn enwedig i bobl sydd mewn mwy o berygl o COVID-19.
- Hyd cyfnod y pryder wrth i bobl fynd yn flinedig ac wrth i'w gwydnwch ddihoeni yn ystod y pandemig.
- Y weithdrefn ar gyfer ymdrin ag achosion positif / achosion lluosog yn y gweithle a phrosesau cyfathrebu.
- COVID hir a'r effaith ganlyniadol yn y gwaith.
- Dylid nodi a chyfleu'r cymorth a gynigir ar draws cynyrchiadau yn glir ac yn rheolaidd. Gall hyn amrywio o fodel rhwydwaith cymheiriaid i linellau cymorth a/neu lwyfannau ar-lein priodol.
- Rhoi gwybod am ffynonellau cymorth / cefnogaeth i'r criw a'r cast yn rhagweithiol, ac ystyried strwythurau cymorth ar y set e.e. cymorth arbenigol sydd ar gael.

Mae'r Elusen Ffilm a Theledu wedi ymrwymo i gefnogi gweithlu ffilm a theledu'r DU i ddychwelyd i gynhyrchu ar ôl COVID-19 ac mae'n darparu llawer o adnoddau defnyddiol ar gyfer castiau, criwiau a'r rhai sy'n creu rhaglenni.

### 18. Dolen adborth

*Bydd pob cynhyrchiad yn wynebu heriau unigryw a bydd problemau annisgwyl yn digwydd yn anochel.* Felly, mae'n bwysig bod timau cynhyrchu yn adrodd am unrhyw ddiffygion, llwyddiannau a gwersi a ddysgwyd i sicrhau bod asesiadau risg yn cael eu gwella ac yn parhau i fod yn effeithiol.

- Dylid adolygu asesiadau risg yn rheolaidd a phryd bynnag y bydd newid sylweddol mewn amgylchiadau.
- Dylid sefydlu systemau i ganiatáu i bobl godi pryderon yn gyfrinachol a'u bod yn cael eu harchwilio'n brydlon.
- Dylai fod ymrwymiad penodol na fydd unrhyw un yn cael ei gosbi am godi pryderon diogelwch neu wrthod gweithio mewn amgylchedd anniogel.

## Y Protocol Carfanau Cyswllt Agos ("Protocol CCA" neu “CCC” yn Saesneg)

### Cwmpas

Mae’r gyfraith yn gofyn i gyflogwyr gynnal asesiad risg i benderfynu pa gamau y mae’n rhesymol ymarferol i’w cymryd i ddiogelu gweithwyr ac eraill rhag COVID-19. Mae’r protocol carfan cyswllt agos yn cynnig dull gweithredu a allai fod yn ddefnyddiol o fewn lleoliad cynhyrchu teledu i reoli’r risg honno yn sgil dod i’r casgliad, ar ôl ystyriaeth ofalus, nad yw gofynion golygyddol/sgript yn caniatáu ar gyfer ymbellhau cymdeithas a dulliau eraill o osgoi cyswllt agos (e.e. defnyddio sgriniau). Mae’r protocol yn derbyn y bydd cyswllt agos yn digwydd ond mae’n amlinellu rheolaethau y gellir eu cymhwyso i ostwng risg o drosglwyddo COVID ac aflonyddwch canlyniadol i fusnes. Cyfrifoldeb y cwmni cynhyrchu fydd pennu, ar ôl asesu’r risg, a ddylid mabwysiadu’r protocol hwn neu a yw mesurau amgen i ostwng risg yn fwy priodol.

### Dulliau amgen

Mae'r protocol hwn yn nodi dau ddull y gellid eu defnyddio i liniaru risg i'r rhai sy'n gorfod gweithio'n agos at ei gilydd:

a) '**Swigen'** – lle mae'r bobl dan sylw wedi'u hynysu'n llwyr oddi wrth y rhai y tu allan i'r swigod drwy gydol y gweithgaredd (gan gynnwys y tu allan i'r gwaith).

b) **Carfan Cyswllt Agos (CCA)** – lle mae mesurau gwahanu'n cael eu defnyddio'n ofalus yn yr amgylchedd gwaith a'u llacio mewn mannau eraill, er mwyn caniatáu cymysgu cyfyngedig gyda'u teulu agos, er enghraifft.

Mae **Swigod** wedi'u defnyddio'n llwyddiannus lle mae angen i grwpiau mwy ddod at ei gilydd am gyfnod penodol (e.e. twrnameintiau chwaraeon a rhaglenni realiti) a lle gallant aros mewn cwarantin drwy gydol y cynhyrchiad. Gall swigod hefyd fod yn briodol lle mai'r nod yw lleihau'r risg o glefyd i lefel eithriadol o isel oherwydd gwendidau sylweddol y bobl dan sylw neu am resymau masnachol.

Mae **CCAau** yn debygol o gael eu defnyddio ar gyfer grwpiau llai sydd angen cyswllt agos (e.e. cymeriadau'n ffilmio golygfa garu). Yn eu hanfod, mae CCAau yn llai diogel na Swigod ac yn dibynnu ar sicrhau bod y grŵp mor fach â phosibl. Yn ogystal, mae angen atal unrhyw gysylltiad rhwng y grŵp bach hwnnw ac eraill ar y set (o ran mesurau cadw pellter) ac mae angen system glir ar gyfer sut i leihau'r rhyngweithio cymdeithasol â'r rhai y tu allan i'r CCA pan nad ydynt yn y gwaith.

Mae'r canllawiau yn yr Atodiad hwn yn canolbwyntio ar ddefnyddio CCA wrth gynhyrchu rhaglenni teledu er y gallai rhai o'r elfennau fod o gymorth i gynyrchiadau sydd am sefydlu Swigen.

### Egwyddorion

Caiff pobl eu heintio â COVID-19 drwy ledaeniad y feirws SARS-CoV-2. Mae’r trosglwyddiad yn digwydd yn bennaf drwy drosglwyddo feirws o berson i berson. Gallai’r trosglwyddiad hwnnw fod trwy gyswllt agos (e.e. ychydig fetrau neu lai) pan fydd ddafnau a gronynnau mwy trwy’r awyr yn rhagori neu yn bellach (e.e. ar draws ystafell) y gall aerosolau llai gael eu cludo ar lif awyr.

Credir bellach bod lledaeniad fformid (h.y. lle mae’r arwyneb wedi’i halogi gan un person yn cael ei gyffwrdd gan eraill a’i drosglwyddo i’w wyneb) yn ffordd lai cyffredin o drosglwyddo’r feirws na throsglwyddo drwy’r awyr ac y gellir ei reoli'n effeithiol gan y mesurau cyffredinol yn y Canllawiau Cynhyrchu Rhaglenni Teledu sy'n ymwneud â glanhau, awyru a hylendid personol.

Gellir lleihau risg o drosglwyddo drwy’r awyr yn sylweddol drwy gyflwyno rhwystrau anhydraidd rhwng pobl, gan gadw pellter corfforol o 2 fetr o leiaf a/neu wisgo gorchuddion/masgiau wyneb.

Lle na ellir defnyddio rhwystrau, mesurau cadw pellter a/na gorchuddion wyneb, gellir lleihau'r risg drwy greu CCA yn seiliedig ar y canlynol:

a) Sicrhau nad oes unrhyw un sydd wedi cael diagnosis o COVID-19, sy'n byw gyda rhywun sydd wedi'i heintio neu sy'n arddangos symptomau'r clefyd, yn cael ei dderbyn i CCA.
b) Cyfyngu ar nifer y bobl yn y CCA i'r lleiafswm angenrheidiol – parau yw'r gorau gan fod pob person ychwanegol yn ychwanegu'n sylweddol at y risg.
c) Defnyddio mesurau gwahanu bob amser ar y set fel bod pobl yn y CCA yn treulio cyn lleied o amser â phosibl mewn mannau caeedig gyda chyn lleied o bobl eraill ag sy'n ymarferol a bod y rheol cadw pellter o 2 fetr yn cael ei chymhwyso'n ofalus pan fyddant yn agos at y rhai y tu allan i'r garfan.
d) Mae sicrhau bod pawb ar y cynhyrchiad yn deall bod pob CCA ar wahân ac na all aelodau o wahanol CCAau gymysgu neu gael eu cyfnewid – i bob diben, mae gwneud hynny'n creu CCA mwy sy'n llawer llai diogel na'i gydrannau.
e) Sicrhau bod y mesurau safonol a amlinellir yn y Canllawiau Cynhyrchu Teledu yn cael eu cymhwyso'n drylwyr gan aelodau’r CCA pan nad ydynt yn cymryd rhan mewn gweithgarwch cyswllt agos angenrheidiol, gan gynnwys pan fyddant oddi ar y set.
f) Gofyn i aelodau’r CCA gyfyngu cymysgu â phobl eraill cyn belled ag y bo modd i ffwrdd o'r gwaith. Eu hannog i leihau nifer y bobl y maent yn rhyngweithio â hwy a'r amser a dreulir gyda'i gilydd, cyn belled ag y bo'n rhesymol ymarferol.
g) Sefydlu trefn brofi ar gyfer y CCA i leihau'r siawns y bydd person heintiedig asymptomatig yn mynd i mewn i CCA ac i gadarnhau bod rheolaethau'n gweithio'n barhaus. Mae hwn yn bennaf yn fecanwaith sicrwydd ac yn ategu'r mesurau a amlinellir uchod.

**Sut i sefydlu CCA**

**1. Gwneud penderfyniad i sefydlu CCA**

a) Dylai unrhyw benderfyniad i sefydlu CCA fod yn rhan o asesiad risg COVID-19 cyffredinol y cynhyrchiad a dylid cofnodi'r rhesymeg yn llawn.
b) Y man cychwyn yw archwilio a all newidiadau i sgriptiau neu fesurau technegol ganiatáu i reolaethau safonol y Canllawiau Cynhyrchu Teledu gael eu cymhwyso. Dim ond os canfyddir nad yw'r opsiynau hynny'n ‘rhesymol ymarferol’ y dylid ystyried CCA yn fesur rheoli amgen. Mae gweithredu CCAau yn feichus, yn cymryd llawer o amser ac yn gostus – ni ddylid byth ei ystyried yn "opsiwn hawdd".
c) Dylai'r tîm golygyddol fod yn ymwneud yn agos â chynllunio i sicrhau bod maint pob CCA a nifer y CCAau ar gyfer y cynhyrchiad yn cael eu cadw mor isel ag sy'n rhesymol ymarferol.
d) Dylid sefydlu system ysgrifenedig i ddogfennu sut y bydd y broses CCA yn cael ei rheoli ar y cynhyrchiad. Dylai'r protocol hwn helpu gyda'r ffactorau sydd i'w hystyried ond penderfynir ar y manylion drwy'r broses asesu risg.
e) Efallai y byddai'n briodol ymgynghori â gweithiwr iechyd a diogelwch sydd â chymwysterau addas i helpu i lunio'r dull gweithredu, ateb cwestiynau a chefnogi’r broses weithredu.

**2. Ffurfio CCA**

a) Cyfathrebwch yn glir â'r unigolion a allai fod yn rhan o'r CCA am yr hyn sy’n ofynnol fel y gallant gadarnhau eu bod yn deall ac yn derbyn y trefniadau.
b) Ystyriwch ymgysylltu, lle y bo'n briodol, â chynrychiolwyr undebau i sicrhau bod goblygiadau gweithio mewn CCA yn cael eu deall.

c) Nodwch unrhyw aelodau o CCA arfaethedig neu aelodau eu haelwydydd (gan gynnwys os oes gan aelodau CCA gyfrifoldebau gofalu) sydd â gwendidau COVID-19[2] fel y gellir asesu hyn ar wahân ac unrhyw addasiadau priodol mewn ymgynghoriad â'r unigolyn/unigolion dan sylw.

d) Cynhaliwch sgriniadau i'r rhai yn y CCA i sicrhau nad ydynt yn dioddef o COVID-19 neu symptomau sy'n arwydd o'r clefyd. Dylai'r sgriniad hwn gynnwys cael datganiad ysgrifenedig gan yr unigolion yn nodi ei fod yn rhydd o symptomau yn ogystal â phrawf adwaith cadwynol polymerasau ar gyfer SARS-CoV-2 a gynhaliwyd yn ystod y 48 awr cyn ymuno â'r CCA (gweler adrannau 5 a 6 ar ddewis a gweithredu trefn brofi).

e) Rhowch wybodaeth, cyfarwyddyd a hyfforddiant addas a digonol i bawb ar y cynhyrchiad (gan gynnwys y rhai nad ydynt yn y CCA) am egwyddorion a gweithrediad ymarferol system CCA.

f) Cadwch bob CCA i'r nifer lleiaf posibl o aelodau. Dylai aelodau, cyn belled ag y bo modd ar y set, gymysgu ag aelodau eraill o'r un garfan yn unig a rhaid iddynt gadw pellter corfforol bob amser oddi wrth eraill.

g) Osgowch gymysgu neu amnewid aelodau rhwng CCAau. Dim ond un CCA y gall rhywun fod yn rhan ohono ar unrhyw adeg benodol. Os oes gofyniad i symud o un CCA i'r llall, dylid cadw at y broses lawn ar gyfer ymuno â CCA oni bai bod y protocolau'n cyd-fynd yn hollol ac y gellir sicrhau trosglwyddiad COVID ddiogel.

h) Gweithiwch allan sut i wneud aelodau'r CCA yn hawdd eu hadnabod fel aelod o CCA penodol (e.e. codau lliw ar gyfer gwahanol grwpiau).

i) Atgoffwch y rhai mewn CCA yn rheolaidd o'u rhwymedigaethau i leihau faint maent yn cymysgu ac yn cael cyswllt cymdeithasol ar ac oddi ar y set. Efallai y bydd cynyrchiadau am ystyried cyfyngiadau llymach ar weithgarwch cymdeithasol mewn rhai achosion. Pan fo darpariaethau a gyflwynir i reoli risgiau COVID-19 yn arwain at ofynion ychwanegol yn cael eu rhoi ar y cast y tu allan i'w cyfnod gweithio, dylid trafod y rhain yn llawn ymlaen llaw.

j) Sefydlwch system ar gyfer cofnodi pwy sydd mewn CCA gyda manylion llawn am gyfnodau o gyswllt agos ar y cynhyrchiad. Bydd hyn yn hanfodol os bydd aelod yn datblygu'r salwch ac efallai y bydd yn ofynnol gan gyrff olrhain cysylltiadau swyddogol.

k) Sicrhewch nad oes unrhyw un sydd wedi cael diagnosis o COVID-19, sydd wedi profi'n bositif â'r haint neu sy'n dangos symptomau sy'n awgrymu'r haint yn rhan o'r CCA, a chydymffurfiwch â chanllawiau cyfredol y Llywodraeth[3].

## 3. Gweithredu CCA

a) Gwnewch hi'n ofynnol i aelodau CCA gwblhau a chofnodi gwiriadau symptomau cyn dod i'r set bob dydd. Erbyn hyn, ystyrir nad yw gwiriadau tymheredd o fawr o werth gan fod sensitifrwydd a phenodolrwydd yn isel iawn ac nid ydynt yn cael eu hargymell.

b) Profwch y CCA yn rheolaidd gan ddefnyddio dyfeisiau llif unffordd antigenau (LFD) i bennu os ydynt yn debygol o fod yn heintus â SARS-CoV-2 (gweler adrannau 5 a 6). Dylid defnyddio profion LFD yn aml (e.e. yn ddyddiol) pan fydd trosglwyddiad cymunedol yn uchel ond gellir ei ostwng pan fydd llai o feirws o gwmpas. Gall asesiad risg ar unigolyn neu'r cynhyrchiad ddangos hefyd bod profion mwy rheolaidd ar y garfan yn briodol.

c) Sicrhewch, os bydd aelod o CCA yn dangos symptomau COVID-19, neu'n profi'n bositif â'r haint, ar unrhyw adeg yn ystod y cynhyrchiad, ei fod ef a phob aelod arall o'r CCA sydd wedi bod mewn cysylltiad agos, waeth beth fo canlyniad eu profion eu hunain, yn hunanynysu ar unwaith yn unol â chanllawiau cyfredol y Llywodraeth.

d) Cynghorwch unrhyw aelod o CCA sy'n dangos symptomau ac yna'n profi'n negyddol, y dylai aros nes nad oes ganddo symptomau mwyach cyn dychwelyd i'r cynhyrchiad.

e) Cynghorwch aelodau o CCA sy'n ynysu oherwydd bod aelod arall wedi dangos symptomau ond wedi profi'n negyddol wedi hynny, y gallant ddychwelyd i'r cynhyrchiad ar yr amod eu bod hefyd yn profi'n negyddol **ac** nad oes ganddynt symptomau.

---

[2] Who is at high risk from coronavirus (clinically extremely vulnerable) - NHS (www.nhs.uk)
[3] Stay at home: guidance for households with possible or confirmed coronavirus (COVID-19) infection - GOV.UK (www.gov.uk)

f) Sicrhewch, os bydd yr awdurdodau'n cysylltu ag aelod CCA oherwydd cysylltiad agos y tu allan i'r gwaith, ei fod yn deall y gallai fod angen iddo hunanynysu yn unol â chanllawiau cyfredol y Llywodraeth. Ni fydd yn ofynnol i aelodau eraill o'r CCA hunanynysu oni bai eu bod yn cael cyfarwyddyd i wneud hynny gan y corff olrhain cysylltiadau swyddogol.

g) Cynghorwch aelodau o CCA sy'n profi'n bositif y dylent ymgysylltu â'r corff olrhain swyddogol ac mai'r unigolyn sy'n gyfrifol am hysbysu cysylltiadau agos y tu allan i'r gweithle.

h) Sefydlwch ymchwiliad yn y cynhyrchiad os bydd aelod o CCA yn datblygu COVID-19 neu'n profi'n bositif, i egluro'r amgylchiadau a phenderfynu lynwyd at fesurau rheoli yn y gweithle yn briodol.

**NODER Mae rheolau hunanynysu ar gyfer cysylltiadau agos wedi newid yn y DU:**

Efallai na fydd yn ofynnol yn gyfreithiol i gastiau a chriwiau hunanynysu mwyach os cânt eu nodi fel cyswllt agos rhywun sydd yn achos COVID-19 positif, cyn belled â'u bod wedi derbyn eu dos olaf o frechlyn COVID-19 a gymeradwywyd gan yr MHRA o leiaf 14 diwrnod cyn y cysylltiad â'r achos positif.

Edrychwch ar y canllawiau diweddaraf yn Lloegr Gogledd Iwerddon, yr Alban a Chymru gan fod rheolau'n wahanol rhwng y gwledydd. Rhaid i aelodau cast a chriw ym mhob un o wledydd y DU barhau i hunanynysu, hyd yn oed os ydynt wedi'u brechu'n llawn, os:

- oes ganddynt symptomau a allai fod wedi eu hachosi gan COVID-19, hyd yn oed os yw eu symptomau'n ysgafn
- ydynt wedi cael canlyniad prawf COVID-19 positif (p'un a oes ganddynt symptomau ai peidio)
- ydynt wedi cael cyngor i hunanynysu gan y GIG neu gorff iechyd cyhoeddus perthnasol

Efallai y bydd cynyrchiadau am ystyried defnyddio profion pellach cyn caniatáu i rywun sydd wedi'i nodi fel cyswllt agos ailymuno â'r gweithle. Efallai y byddant hefyd am ystyried profion/rheolaethau pellach am y 10 diwrnod yn dilyn yr hysbysiad y bu achos positif. Dylid ystyried hyn fel rhan o'u hasesiad risg.

## 4. Dewis trefn brofi i'w defnyddio ar gyfer CCA

Fel y nodwyd yn y Canllawiau Cynhyrchu Teledu, mae profion ar gyfer COVID-19 yn gymhleth, yn feichus ac yn gostus. Y cyfiawnhad dros ddefnyddio trefn brofi fel rhan o system CCA yw ***profi i alluogi*** (h.y. caniatáu i weithgareddau ddigwydd a fyddai fel arall yn cael eu hystyried yn rhai â risg uwch pan fo COVID-19 yn cylchredeg). Ni all profion ddileu risg COVID-19 ac nid oes prawf delfrydol i'w ddefnyddio, er gwaethaf yr ystod eang o dechnolegau sydd ar gael erbyn hyn.

Yng nghyd-destun system CCA, mae nodweddion manteisiol prawf yn cynnwys lefel uchel o gywirdeb, rhwyddineb o ran ei ddefnyddio a chyflymder y canlyniadau. Yn anffodus, yn aml mae cyfaddawd rhwng cywirdeb a'r nodweddion eraill felly mae angen canfod y mesur gorau sy'n ddichonadwy ar gyfer anghenion penodol.

Y dylanwad mwyaf ar sensitifrwydd y byd go iawn yw ansawdd samplu (swab trwyn a/neu wddf dwfn yn gyffredinol). Yn ddieithriad, mae gwaith samplu a wneir gan weithredwr hyfforddedig yn sicrhau canlyniadau gwell na hunansamplu, hyd yn oed pan gaiff yr hunansamplu ei oruchwylio, ac mae'r gwahaniaeth mewn sensitifrwydd yn llawer mwy na rhwng y rhan fwyaf o brofion.

O ganlyniad, mae angen rhoi ystyriaeth ofalus i'r strategaeth samplu yn ogystal â sensitifrwydd y prawf a gall gwahanol atebion fod yn briodol ar wahanol lefelau o drosglwyddo cymunedol.

Mae nifer o fathau o brofion ar gael ar gyfer canfod SARS-CoV-2 ond defnyddir dau yn fwy cyffredin. Dylai deall beth y mae pob un yn ei gynnig fod yn sail i lunio strategaeth brofi:

Profion adwaith cadwynol polymerasau (PCR)

- Mae profion PCR yn nodi a oes deunydd genetig firaol (RNA) yn bresennol yn y sampl wedi'i brofi.

- Dyma'r dull safonol ar gyfer gwneud diagnosis o COVID-19. Mae ganddynt lefelau uchel o sensitifrwydd yn y labordy a phenodolrwydd ac fe'u defnyddir fel y meincnod y mae profion eraill yn cael eu cymharu ag ef.

- Mae eu sensitifrwydd uchel yn golygu y gallan nhw sylwi ar haint yn yr 24-48 awr cyn i berson ddatblygu symptomau a / neu ddod yn heintus.

- Mae'r sensitifrwydd uchel hefyd yn golygu eu bod yn debygol o ddangos canlyniad positif am sawl diwrnod (weithiau sawl wythnos) ar ôl i haint wella ac nad yw'r person yn heintus mwyach.

- Cymer dadansoddiad sawl awr ac yn gyffredinol fe'i gwneir mewn labordy, felly fe all gymryd rhwng 24 a 48 awr rhwng samplu a derbyn canlyniad. Gall yr oedi hwn achosi anawsterau i gynyrchiadau ac achosi i aelodau eraill CCA fod yn agored os bydd rhywun arall yn profi'n bositif.

Profion dyfais llif unffordd antigenau (LFD)

- Mae profion LFD yn nodi a oes protein fiarol (antigen) yn bresennol yn y sampl a brofir.
- Mae'r rhain yn brofion sgrinio a ddefnyddir yn gyffredin i adnabod haint SARS-CoV-2 posibl. Nid yw'r rhain mor sensitif â PCR ond, pan fydd cyfnodau o drosglwyddiad uchel yn y gymuned, mae ganddynt werth rhagfynegi da.
- Dengys ymchwil eu bod yn mapio'n dda i'r cyfnod pan fydd person yn heintus[4] ac, yn wahanol i PCR, nid ydynt yn parhau i ddangos canlyniad positif ar ôl y cyfnod hwnnw.
- Maen nhw'n cynnig canlyniadau cyflym iawn (tua 20 munud) a gall pawb brofi eu hunain, er mae swabio gan weithiwr hyfforddedig yn cynyddu'r sensitifrwydd.

Argymhellir felly cynnal prawf sensitifrwydd uchel (megis PCR) yn y 48 awr cyn i berson gyrraedd CCA. Dyma fydd yn fwyaf tebygol o adnabod person heintus yn y cyfnod cyn iddynt ddatblygu symptomau.

Gellir defnyddio profi rheolaidd i adnabod aelodau CCA a allai ddod yn heintus gan ddefnyddio profion cyflym llai sensitif (megis LFD). Dylid cynnal y profion ar ddiwrnod y ffilmio ond cyn i'r person ddod i gysylltiad â phersonél eraill y cynhyrchiad (cast neu griw). Bydd trefn ddyddiol o brofi yn ystod cynhyrchiad yn debyg o gynnig yr amddiffyniad gorau i aelodau CCA a'r cynhyrchiad.

Mae technolegau profi amgen i PCR a LFD wedi'u defnyddio'n llwyddiannus gan rai cynyrchiadau. Os ydych yn ystyried dewis amgen, mae'n bwysig deall yr hyn y gall prawf ei gynnig a sut y gall gyfrannu at gynnal CCA diogel o ran COVID. Dylai unrhyw systemau a ddefnyddir fodloni nodweddion dymunol ar gyfer prawf a amlinellir yn y Proffil Cynnyrch Targed MHRA ar gyfer ffurf berthnasol o brofi Adnabod SARS-CoV-2. Nid yw dewis trefn brofi briodol bob amser yn syml a gallai fod angen cyngor gan weithiwr iechyd proffesiynol sydd â chymwysterau addas.

## 5. Gweithredu rhaglen brofi ar gyfer CCA

[4] Oxford University and PHE confirm high-sensitivity of lateral flow tests - GOV.UK (www.gov.uk)

Yn gyffredinol, mae'n well caffael datrysiad profi gan ddarparwr yn hytrach na phrynu'r prawf i'w ddefnyddio eich hun gan fod sawl ystyriaeth reoleiddiol wrth sefydlu rhaglen brofi[5]. Mae'r llywodraeth wedi cyhoeddi rhestr[6] o ddarparwyr preifat ar gyfer lleoliadau profi cyffredinol y gellir eu defnyddio fel man cychwyn wrth ddewis partner profi.

Mae ystyriaethau wrth ymgysylltu â darpar ddarparwr a/neu sefydlu rhaglen brofi yn cynnwys:

a) Dylai samplau gael eu casglu gan weithredwr hyfforddedig lle fo'n ymarferol yn unol â methodolegau cymeradwy. Gellir ystyried hunansamplu ond mae'n cynyddu'r risg o ganlyniadau annilys a phrofion negyddol anghywir.
b) Dylai fod yn ofynnol i'r darparwr profion sefydlu system ar gyfer dadansoddi canlyniadau PCR ymhellach sy'n amhendant neu'n anargyhoeddiadol. Dylai hynny gynnwys dadansoddiad meintiol (e.e. lefelau Ct) wedi'i ategu gan gyngor arbenigol priodol. Gall profion positif anghywir o fewn CCA amharu ar gynhyrchiad ac, yn enwedig ar adegau o drosglwyddiad cymunedol isel, gellir disgwyl gweld y fath achosion – felly mae protocol a bennwyd ymlaen llaw ar gyfer ymdrin â chanlyniadau anargyhoeddiadol yn ddoeth.
c) I gael samplau a phrosesu profion biolegol, mae angen cydsyniad gwybodus y testun ar bob achlysur. Bydd angen cael caniatâd ysgrifenedig a dylai gynnwys caniatâd i'r person enwebedig sy'n rhoi cyngor i'r cynhyrchiad gael gwybod am y canlyniadau.
d) Bydd yn ofynnol i'r cwmni cynhyrchu gadarnhau gofynion profi ar gyfer aelodau CCAau o dan 18 oed gyda'r darparwr profion. Bydd yn ofynnol i rieni/gwarcheidwaid roi caniatâd ar ran yr unigolion hyn yn unol â chanllawiau'r darparwr profion.
e) Bydd angen ymdrin â chanlyniadau profion ac unrhyw ddata personol arall a gedwir fel rhan o'r broses brofi a'u cyfleu mewn modd cyfrinachol ac yn unol â gofynion diogelu data[7] sy'n debygol o'i gwneud yn ofynnol:
    i. Y dylai un person a enwir sydd â gwybodaeth addas a/neu fynediad at gyngor clinigol dderbyn a chyfleu'r canlyniadau.
    ii. Y dylid cyfleu cyngor i'r cynhyrchiad sy'n deillio o hynny fel "addasrwydd i barhau yn y CCA" neu debyg, yn hytrach nag fel gwybodaeth glinigol sensitif.
    iii. Na ddylid cyfleu unrhyw wybodaeth bersonol sensitif arall, yn unol â Chanllawiau Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth[8].
f) Rhaid gweithredu ar unwaith ar ganlyniadau positif, hyd yn oed os ystyrir eu bod yn anargyhoeddiadol. Rhaid i'r unigolyn dan sylw a phob aelod arall o'r CCA hunanynysu cyn gynted â phosibl ar ôl i'r canlyniad ddod i law a dylid gweithredu'r canllawiau a amlinellir uchod (para. 4.c i 4.h). Gellir cymryd camau i ddilysu canlyniadau anargyhoeddiadol ar yr un pryd.

## 6. Gadael a/neu ddychwelyd i CCA

Gall pobl adael CCA oherwydd nad yw eu rôl yn gofyn am gysylltiad agos ag aelodau eraill mwyach a bydd CCAau yn cael eu diddymu unwaith y bydd y gweithgaredd y cawsant eu ffurfio ar ei gyfer wedi'i gwblhau. Yn y naill achos neu'r llall dylid cael gweithdrefn ymadael i sicrhau bod aelodau'n parhau i gael eu diogelu am y cyfnod cyfyngedig pan fydd risg o haint yn parhau.

Dylai'r weithdrefn ymadael ar gyfer gadael CCA ac ymuno â CCA newydd gynnwys toriad o 48 awr rhwng CCAau a phrawf PCR negyddol newydd cyn ymuno â CCA newydd, oni bai bod y protocolau'n cyd-fynd yn hollol ac y gellir sicrhau trosglwyddiad COVID ddiogel.

[5] Coronavirus (COVID-19): testing guidance for employers - GOV.UK (www.gov.uk)
[6] Private providers of COVID-19 testing: what you need to know - GOV.UK (www.gov.uk)
[7] Ar gyfer y DU gweler Guide to the UK General Data Protection Regulation (UK GDPR) | ICO
[8] Testing | ICO

Gall unigolion sy'n datblygu COVID-19 neu sy'n profi'n bositif ddod â'u cyfnod o ynysu cymdeithasol i ben yn unol â chanllawiau cyfredol y llywodraeth. Cyn dychwelyd i'r gwaith dylent hefyd fod yn teimlo'n iach a heb dymheredd uchel (heb gymryd unrhyw feddyginiaeth i ostwng y tymheredd). Gall peswch parhaus a cholli synnwyr blasu / arogleuo barhau am rai wythnosau ar ôl gwella, a gellir eu diystyru. Yna, gallant ailymuno â CCA, ar yr amod eu bod yn iach, ac wedi cofnodi dau ganlyniad negyddol LFD o leiaf 24 awr ar wahân. Nid yw profion PCR ailymuno yn ofynnol.

Ni argymhellir ailadrodd profion PCR am 90 diwrnod o'r adeg y mae rhywun yn datblygu symptomau neu'n profi'n bositif. Y rheswm am hyn yw na all profion PCR wahaniaethu rhwng RNA feirysol gweddilliol (sy'n gallu aros am wythnosau lawer) a haint gweithredol felly mae profion positif anghywir yn fwy tebygol. Mae'n werth i gynyrchiadau ac unigolion gofio serch hynny y gallai profi PCR fod yn ofynnol o hyd i deithio dramor mewn rhai achosion.

Mae dal yr haint eto o fewn 90 diwrnod yn anarferol yn gynharach yn y pandemig ond mae wedi digwydd yn amlach gydag amrywiolyn Omicron. Er mwyn diogelu cyfanrwydd y CCA, dylai cynyrchiadau felly ystyried cynnwys pobl sydd wedi gwella o COVID-19 mewn unrhyw raglen brofi LFD rheolaidd ar ôl dychwelyd. Mae'r risg o brofion positif anghywir yn llawer is gyda LFD na gyda PCR.

**Rhagor o wybodaeth**

Paratowyd y canllawiau hyn yng nghyd-destun y DU ond efallai y bydd elfennau y mae angen eu haddasu o ystyried cyngor a gyhoeddwyd gan Lywodraethau Lloegr, yr Alban, Cymru a Gogledd Iwerddon.

Efallai y bydd gan gwmnïau / darlledwyr unigol eu canllawiau pwrpasol eu hunain i ategu'r ddogfen hon.

Gellir dod o hyd i fideo sy'n esbonio'r broses brofi yng nghyd-destun y diwydiant teledu yma.